

# Tai Gogledd Cymru Proffil Swydd



Teitl y Swydd	Trydanwr	Cyfarwyddiaeth	Gweithrediadau
Adran	Cartrefi	Tîm(au)	Trydanol
Yn atebol i	Rheolwr Trydanol	Yn gyfrifol am	Ddim yn berthnasol

## Ynglŷn â Tai Gogledd Cymru

Mae Tai Gogledd Cymru wedi bod yn darparu cartrefi ac yn darparu gwasanaethau ers 1974. Rydym yn gymdeithas dai lwyddiannus gyda thros 2,700 o gartrefi ac rydym yn gwbl ymroddedig i'n cymunedau ar draws gogledd Cymru. Rydym yn blaenoriaethu buddsoddiad sylweddol yn ein cartrefi a'n gwasanaethau.

Rydym yn cyflogi tua 170 o bobl yn gweithio mewn amrywiaeth o rolau. Rydym yn falch o arddangos achrediadau 'Aur' Buddsoddwyr Mewn Pobl ac 'Un i'w Gwyllo' Best Companies gan ein bod yn gofalu am ein pobl ac yn eu gwerthfawrogi gan eu bod yn rhoi ein cwsmer wrth galon popeth a wnânt.

### Pwrpas y swydd

Gweithredu fel rhan o dîm cynnal a chadw symudol sy'n darparu gwasanaeth cynnal a chadw ac adnewyddu o ansawdd i eiddo preswyl ac eiddo gwag o fewn amserlenni penodol mewn modd sy'n dangos parch uchel at ofal cwsmeriaid, safon crefftwaith ac effeithlonrwydd

### Ynglŷn â'ch swydd

#### Meysydd Canlyniadau Allweddol / Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

1. Darparu ystod lawn o dasgau cynnal a chadw/gosod/arolygu a phrofi trydanol ar fasnach i unrhyw eiddo neu ased (domestig a masnachol) o fewn perchnogaeth neu gyfrifoldeb NWH i gefnogi NWH a thenantiaid
2. Darparu bod yr holl waith papur a thystysgrifau yn cael eu cwblhau yn unol â deddfwriaeth/rheoliadau a chanllawiau NICEIC perthnasol a'u cyflwyno mewn modd amserol at ddibenion cydymffurfio.
3. Cynghori ar atebion gwaith trwsio er mwyn sicrhau gwasanaeth diogel, effeithlon a chost effeithiol
4. Rhyngweithio'n effeithiol â thenantiaid a thechnegwyr eraill er mwyn cyfrannu at gynnwys y gymuned gan gefnogi a darparu gwasanaeth effeithiol sy'n canolbwyntio ar denantiaid
5. Darparu cymorth ac arweiniad i Brentisiaid a Hyfforddeion i sicrhau bod amcanion a thargedau contract yn cael eu cyflawni o fewn yr amserlenni priodol

#### Perthnasau Allweddol – Mewnol ac Allanol

Staff  
Tenantiaid  
Contractwyr  
Cyflenwyr  
Partneriaethau

### Cyffredinol

- Byddwch wedi ymrwymo i roi'r cwsmer wrth galon popeth a wnewch.
- Byddwch yn cyfrannu'n weithredol at gyflawni targedau, dangosyddion perfformiad allweddol a safonau gwasanaeth sy'n berthnasol i'ch swydd ac yn cynorthwyo i gymryd camau unioni pan fydd perfformiad yn disgyn islaw'r safonau gofynnol.

# Tai Gogledd Cymru Proffil Swydd



- Sicrhau y cedwir at yr holl bolisïau a gweithdrefnau a'u bod yn cael eu gweithredu bob amser. Mae hyn yn cynnwys lechyd a Diogelwch, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a GDPR.
- Cydymffurfio â Chod Ymddygiad y Gymdeithas trwy ymddwyn mewn modd proffesiynol a pharchus bob amser.
- Cymryd rhan mewn adolygiadau cynnydd/perfformiad trwy gydol y flwyddyn.
- Cydweithio ag eraill TGC adrannau i gyflawni canlyniadau da ar gyfer ein preswylwyr, ymgeiswyr, cydweithwyr, a chontractwyr.
- Mynychu cyrsiau hyfforddi a chwblhau modiwlau hyfforddi ar-lein yn ôl yr angen i fodloni gofynion y swydd.
- Cymryd cyfrifoldeb am eich datblygiad personol eich hun, gan chwilio am gyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl y gofyn y tybir yn rhesymol eu bod o fewn cwmpas y swydd neu'n angenrheidiol ar gyfer rhedeg y busnes yn esmwyth.

Amdanoch chi	Hanfodol	Dymunol
<b>Cymwysterau a hyfforddiant penodol</b>	<p>Cymhwyster masnach cydnabyddedig ar NVQ lefel 3 trydanol</p> <p>18fed Argraffiad Rheoliadau IEE</p> <p>Dyfarniad Lefel 3 mewn arolygu a phrofi (CG2391-52) neu gyfwerth</p>	<p>Achrediad CSCS-ECS</p>
<b>Gwybodaeth</b>	<p>Dealltwriaeth fanwl o reoliadau diogelwch trydanol</p> <p>Dealltwriaeth fanwl o reoliadau lechyd a Diogelwch</p> <p>Dealltwriaeth o ofynion cynnal a chadw i gydrannau trydanol</p> <p>Ymwybyddiaeth o systemau ynni deallus</p> <p>Dealltwriaeth o ddeddfwriaeth mewn perthynas â COSSH, CDM2015. GSIUR. Rheoli Legionella</p> <p>Dealltwriaeth o reoliadau rheoli gwastraff</p>	<p>Dealltwriaeth o'r amgylchedd y mae cymdeithasau tai yn gweithredu ynddo</p> <p>Dealltwriaeth o systemau ynni deallus</p>
<b>Profiad</b>	<p>Profiad sylweddol o brofi/canfod / trwsio a gosod diffygion</p> <p>Profiad sylweddol o ddarparu gwaith cynnal a chadw trydanol perthnasol</p> <p>Profiad sylweddol gyda dadansoddiadau offer (diagnosteg), gwasanaethu a gosodiadau</p> <p>Profiad sylweddol o ddarparu archwiliadau trydanol</p> <p>Profiad sylweddol o weithio o fewn paramedrau contract a sicrhau cydymffurfiaeth â chwmpas gwaith a thelerau ac amodau a amlinellwyd</p>	<p>Profiad dangosadwy o weithio gyda chynnal a chadw adeiladau ar gyfer Awdurdod Lleol/Landlord Cymdeithasol Cofrestredig neu Gontractwr Masnachol</p> <p>Profiad dangosadwy o dechnolegau ynni adnewyddadwy</p> <p>Profiad rheoli prosiect dangosadwy</p>

# Tai Gogledd Cymru Proffil Swydd



	Profiad sylweddol o ddarparu gwasanaethau cynnal a chadw eiddo	
<b>Sgiliau</b>	<p>Sgiliau TG datblygedig, gan gynnwys pecynnau MS Office</p> <p>Sgiliau cyfathrebu datblygedig, rhaid iddynt fod yn gyfeillgar, yn gwrtais ac yn ddefnyddiol i gydweithwyr, y tîm a chwsmeriaid</p> <p>Y gallu i ddarparu sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig clir er mwyn cwblhau cofnodion gwaith ac adroddiadau sylfaenol yn gywir</p> <p>Sgiliau datrys problemau datblygedig iawn, y gallu i gyflawni diagnosteg a datrys diffygion trydanol cymhleth</p> <p>Sgiliau cynnal a chadw eiddo datblygedig, atgyweirio a gosod yn y diwydiant trydanol</p> <p>Gallu gwasanaethu cwsmeriaid datblygedig i sicrhau cyfathrebu clir â chwsmeriaid</p> <p>Y gallu i werthuso, diagnosio ac adfer amrywiaeth o ddiffygion adeiladu trwy gymhwyso meddwl dadansoddol a datrys problemau</p>	
<b>Nodweddion personol</b>	<p>Agwedd ymarferol, gadarnhaol</p> <p>Gweithio'n galed, y gallu i gynhyrchu gwaith o ansawdd uchel</p> <p>Y gallu i weithio'n effeithlon ac i derfynau amser</p> <p>Sylw i fanylion</p> <p>Y gallu i weithio ar eich liwt eich hun ac fel rhan o dîm i gyflawni nodau</p> <p>Parodrwydd i ymrwymo i'ch DPP eich hun</p> <p>Mae'n rhaid i chi allu cynnal sgysiau sylfaenol yn Gymraeg er y gallech gael traferth cadw i fyny yn llawn. (Mae'r gofyniad hwn wedi'i osod ar Lefel B1 yn y model ALTE – Lefel 2 ar y ffurflen hunanasesu – mae hwn ar gael ar ein gwefan o dan Ymuno â'n Tîm).</p>	<p>Bod yn gyfforddus gyda sgysiau/trafodaethau bob dydd yn benodol mewn perthynas â'ch swydd. Byddwch yn hyderus i sgwrsio yn Gymraeg pan fo angen. (Mae'r gofyniad hwn wedi'i osod ar Lefel B2 yn y model ALTE – Lefel 3 ar y ffurflen hunanasesu – mae hwn ar gael ar ein gwefan o dan Ymuno â'n Tîm).</p>
<b>Gofynion ychwanegol</b>	<p>Y gallu i gymryd rhan mewn rota galwadau y tu allan i oriau a allai olygu mynd allan i argyfyngau</p> <p>Cyflawni gwaith sy'n gofyn yn gorfforol am gyfnodau parhaus. Dylid defnyddio'r holl offer yn unol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch</p>	

# Tai Gogledd Cymru Proffil Swydd



Bydd gofyn i chi weithio'n rheolaidd mewn eiddo safleoedd budr (lle mae iechyd a diogelwch yn caniatáu)

Trwydded yrru lawn y DU, Mae'r rôl yn seiliedig ar safle ac mae gofyniad dyddiol i deithio'n lleol

Bydd gofyn i chi weithio'n rheolaidd mewn eiddo brwnt/safleoedd (lle mae iechyd a diogelwch yn caniatáu)

Yn atebol am gynnal cerbyd ac offer, offer a deunydd, o fewn eich rheolaeth

Mae angen gwiriad DBS **syifaenol** ar gyfer y swydd hon

## Am ein ffyrdd o weithio

Dylid cymhwyso gwerthoedd TGC i bob agwedd o'r swydd bob amser.

**Agored** – Rydym yn dryloyw yn y ffordd rydym yn gweithio ac yn gwneud penderfyniadau

**Ymddiriedaeth**... byddwn yn gwneud yr hyn rydym yn addo ei wneud. Byddwn yn ymddwyn yn onest a chywir.

**Ymatebol** – tuag at anghenion a dyheadau ein cwsmeriaid, ein staff a'n partneriaid

**Dysgu**...byddwn yn chwilio am ffyrdd gwell yn y dyfodol. Byddwn yn cydnabod pan fyddwn yn gwneud camgymeriadau, ac yn dysgu oddi wrthynt. Byddwn yn edrych ymlaen at ddysgu oddi wrth eraill.

**Tegwch**... rydym yn agored i bawb, ond yn cau allan rhagfarn. Byddwn yn gweithredu'n bendant i hyrwyddo cydraddoldeb ac yn parchu amrywiaeth.

Gwarchod a gwella buddiannau ac enw da TGC yn fewnol ac yn allanol bob amser.

**Nid yw'r proffil swydd uchod yn hollgynhwysfawr ond mae'n arwydd o'r dyletswyddau y gall deiliad y swydd eu cyflawni a bydd yn destun adolygiad.**

Llofnod Deiliaid y  
Swydd:

Dyddiad:

Llofnod yr  
Arweinydd:

Dyddiad: